Cyngor Bro Llanfairpwllgwyngyll
Cofnodion Cyfarfod 30ain Medi 2014

Presennol: A. Jones (Cadeirydd), J. Roberts, D. Williams, G. Parry, G. C. Jones, B. Jones, Meirion Jones, A. Mummery, H. Huws, A. Thomas,
J. Evans (Cynghorwr Sirol)
Dafydd Owen (clerc)

1. Ymddiheuriadau: Mervyn Jones, P. Roberts, A. Williams, E. Parry, Anwen Le Cras (Swyddog Cyllid)

2. Datganiadau Diddordeb. Ni dderbyniwyd unrhyw ddatganiadau diddordeb

3. Cyfrifion mis Awst a Medi 2014
3.1 Derbyniwyd cyfrifion y Cyngor Bro fel y rhai cywir.
3.2 Derbyniwyd cyfrifion y Neuadd Goffa fel y rhai cywir.
3.3 Derbyniwyd cyfrifion y Fynwent fel y rhai cywir.
3.4 Cynnig bod gair o ddiolch yn cael ei roi i Bwyllgor y Carnifal am eu rhoddiad ariannol.

4. Materion y Cyngor Sir
4.1 J. Evans yn cadarnhau datganiad I'r wasg mai y bwriad yw dim rhedeg peilonnau dros y Fenai.
4.2 Meirion Jones wedi mynychu 'Hawl I Holi' ac yn adrodd bod dim llawer o faterion lleol yn cael ei drafod.

5. Cyflwyno a chadarnhau cofnodion cyfarfod 28 Gorffennaf 2014
5.1 J. Roberts yn cadarnhau mai dim ond y Cynghorydd Sirol sydd ddim yn aelod o'r Cyngor Bro sydd I ymddangos arwahan yn y cofnodion.
5.2 J. Roberts yn cynnig, G. Parry yn eilio. Derbyniwyd y cofnodion fel y rhai cywir.

6. Materion yn codi o'r cofnodion
6.1 Gordyfiant wrth Ty Coch. A. Mummery wedi siarad hefo Alan Jones ac yn disgwyl I Adran Priffyrdd weithredu.
6.2 Twr Marcwis wedi cau – Clerc I ddilyn I fyny gyda Jones Peckover a'r Cyngor Sir am ddiweddariad am beth sydd yn digwydd.
6.3 Gwefan newydd – Clerc I ddilyn I fyny gyda Menter Mon I weld pryd mae'n barod I fynd yn fyw.
6.4 Cerrig beddi - nodwyd bod un o'r cerrig wedi'i ail osod yn ddiogel. A Le Cras i atgoffa teulu'r diweddar Mr Phillips am eu cyfrifoldeb parthed y garreg.
6.5 Carffosiaeth ar lannau'r Fenai ger eglwys Santes Fair. Adnoddau Cymru yn ymchwilio.
6.6 Gofyn I'r Cyngor Sir os oes bwriad gosod plac ar hen dy Kyffin Williams yn Pwllfanogl. Meirion Jones am ddilyn I fyny.
6.7 Llwybyr beicio – Clerc am gysylltu gyda Jenny Clarke yn y Cyngor Sir I ofyn am amserlen
6.8 Coeden Nadolig – Meirion Jones yn adrodd bod Iolo Jones o'r Cyngor Sir wedi amcan fod cysylltiad trydan am gostio £150. Meirion am gael cadarnhad ar e-bost a'I yrru ymlaen.
6.9 J. Roberts yn cadarnhau fod coeden yn cefn y fynwent angen sylw brys.
6.10 Swydd Gofalwr y Neuadd Goffa – Gofyn I Anwen am ddiweddariad gyda drafftio swydd-ddisgrifiad a cadarnhad o beth yw'r sefyllfa gyda'r swydd ar hyn o bryd.

7. Cofnodion Pwyllgor y Neuadd Goffa 09 Medi 2014
7.1 A. Mummery yn cynnig, Meirion Jones yn eilio. Derbyniwyd fel y rhai cywir

8. Materion yn Codi
8.1 Ffenast y Neuadd Goffa – Enid Williams wedi cadarnhau fod y Cyngor Sir yn ad-dalu am ddifrod sydd wedi ei achosi I'r Neuadd yn dilyn defnydd y Clwb Ieuenctid. Trefnu I yrru copi o'r bill am y difrod I'r ffenast I Enid.
8.2Menter Môn ar hyn o bryd yn cynorthwyo ar geisiadau grantiau am y Neuadd Goffa. A. Mummery am ddilyn I fyny gyda Menter Môn.

9 Cofnodion Pwyllgor y Meusydd Chwarae 09 Medi 2014
9.1 A. Jones yn cynnig, Meirion Jones yn eilio. Derbyniwyd fel y rhai cywir.

10 Materion yn Codi
10.1 Llythyr gan Dawn Griffiths o Ffrindiau'r Parc a'r Gors – Gofyn I'r Cyngor Bro am cefnogaeth I wella y maes chwarae. Grant gan y Cyngor Sir angen i'r Cyngor Bro dalu ymlaen llaw am y gwaith a wedyn derbyn yr arian yn ol gan y Cyngor Sir. J. Roberts yn cynnig, A. Mummery yn eilio bod y Cyngor Bro yn rhoi y benthyciad o £5,000 ar yr amod bod y Cyngor Bro yn derbyn llythyr swyddogol gan y Cyngor Sir I gadarnhau y bydd y swm yn cael ei dalu yn ol. A. Mummery yn cynnig bod angen trafod cyfrifoldeb cynnal a chadw yr offer.
10.2 A. Thomas yn adrodd bod yno ddifrod i'r maes 5-bob ochr a un o seti y swings. Gofyn I Andre Le Cras weithredu. G. C. Jones am gynnal archwiliad o'r offer. Clerc I gysylltu gyda cwmniau am gostau I archwilio yr offer yn swyddogol ar gyfer yswiriant.

11. Cofnodion Pwyllgor Amgylchedd ac Eiddo 16 Medi 2014
11.1 A. Jones yn cynnig ei bod yn gywir, G. C. Jones yn eilio. Derbyniwyd fel y rhai cywir

12. Materion yn Codi
12.1 J. Roberts yn llongyfarch Mervyn Jones am wirfoddoli I fynd o gwmpas cwmniau lleol yn gofyn os y byddai yn fodlon cyfrannu tuag at y goedan ac addurniadau.
12.2 Clerc I alw cyfarfod cyntaf I sefdlu pwyllgor ar gyfer trefniadau nadolig.
12.3 Maes parcio y gors – A. Mummery wedi derbyn pris gan R.G Hire rhwn £6,000 I £7,000. A. Mummery yn meddwl y dylai'r Cyngor Bro edrych I wned y gwaith ei hunain gan chwilio am grantiau.
12.4 Coed yn gordyfu o dir yr ysgol – H. Huws wedi trafod gyda'r Ysgol ac mae o wedi ei nodi ganddynt.
12.5 Pamffledi llwybrau llewod – Clerc I ofyn I Menter Mon os oes modd/bwriad ail-argraffu y pamffledi. Credai byddai'r pamffledi yn annog pobl I ddod I ac aros yn yr ardan ar deithiau cerdded.

13. Cadarnhau cyfnod I Gadeirydd ac Is-gadeirydd bwyllgorau barhau
13.1 G. C. Jones yn cynnig, H. Huws yn eilio bod y tymor fel Cadeirydd ac Is-gadeirydd o'r Pwyllgor Llawn ac Is-bwyllgorau yn 2 (dwy) flynedd. J. Roberts am iddo gael ei nodi ei fod yn gwrthwynebu y penderfyniad. Pawb arall yn cytuno I'r penderfyniad.

14 Cwbwlhau Awdit 2013/14
14.1 Derbyn y wybodaeth. Copi o'r ddogfen I'w rhoi ar yr hysbysfwrdd.

15. Ceisiadau Cynllunio
15.1 31C406 – Dim sylw
15.2 31C91F –Dim sylw
15.3 31C419 – Y Cyngor Bro yn dangos pryder am ffitio 2 annedd yn y safle cyfyngedig.

16. Gohebiaeth
16.1 Hyfforddiant i glercod ar y Côd Ymddygiad – Y clerc i fynychu
16.2 Fforwm Cynllunio Ynys Môn 09.10.2014 – Dim sylw
16.3 Grant Datblygu Cymunedol Gwrp Cynefin – Clerc I gael fwy o wybodaeth
16.4 Swyddfa Archwilio Cymru – talu yn ô £30 i'r Cyngor Bro – Dim sylw pellach

17. Unrhyw fater arall
17.1 Grwp scowtiau Llanfairpwll wedi cynnig £50 tuag at y goeden nadolig.
17.2 H. Huws yn cadarnhau bod ymgynghoriad newydd Horizon yn dod allan. Nodi bod angen edrych arno fel Cyngor a rho ymateb.

17.3 H. Huws yn nodi bod y Cyngor Bro heb gael diweddariad gan lywodraethwyr yr Ysgol ers diyn amser. Y Clerc I yrru nodyn yn dweud bysa'r Cyngor Bro yn hoffi diweddariad.
17.4 J. Roberts am i'r clerc nodi fod Cadeirydd ac Is-gadeirydd pwyllgor y Neuadd Goffa hefyd ar bwyllgor y Neuadd Goffa.

Dyddiad Cyfarfod Nesaf – Nos Fawrth 28 Hydref 2014 am 7.00yh yn y Neuadd Goffa

Arwyddwyd …… (Cadeirydd) ……Dyddiad **66**